



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Marcio CE yn y diwydiant Dur

O 1 Gorffennaf 2014 ymlaen, bydd yn rhaid i bob gwneuthurwr sy'n ymwneud â gwaith dur adeileddol gael marc CE ar waith dur gwneuthuredig. Ar ôl y dyddiad hwnnw bydd yn anghyfreithlon i werthu gwaith dur gwneuthuredig a chynnyrch cysylltiedig ar y farchnad Ewropeaidd oni bai fod y gwaith hwnnw wedi cael achrediad CE.

Mae Sector Adeiladu Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Peirianeg, Cymdeithas Gwaith Dur Adeiladu Prydain (BCSA) a Thîm Arloesi Llywodraeth Cymru, yn eich gwahodd i gyfres o ddigwyddiadau sydd â'r nod o baratoi busnesau ar gyfer deddfwriaeth orfodol sydd i'w chyflwyno gan yr UE ym mis Gorffennaf 2014 mewn cysylltiad â rhoi marc CE ar waith dur gwneuthuredig.

Bydd y digwyddiad yn darparu llwyfan amhrisiadwy i fusnesau ddysgu am eu rhwymedigaethau yn y cyswllt hwn, ynghyd â'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Bydd hefyd yn gyfle i rwydweithio ac i glywed beth sydd gan siaradwyr blaenllaw yn y maes i'w ddweud.

Mae'r digwyddiad am ddim a bydd cofrestru'n

dechrau am 8.30am a'r digwyddiad ei hun yn dechrau am 9am. Darperir brecwast bwffe a lluniaeth.

- **Dydd Mercher 11 Rhagfyr** – Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Penllergaer (Abertawe)
- **Dydd Gwener 13 Rhagfyr** – Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Cyffordd Llandudno

I archebu lle yn y digwyddiad, cofrestrwch ar business.wales.gov.uk neu ffoniwch 03000 6 03000, gan nodi pa ddigwyddiad yr hoffech ei fynychu.

Ar y cyd â



www.citb.co.uk

